| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **29 Ionawr 2014** |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol:** | **Alan Smith, Pennaeth Cynllunio Busnes a Pherfformiad** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Craig Berry, Rheolwr Gwybodaeth Corfforaethol** |
| **Teitl:** | **Strategaeth Rheoli Gwybodaeth - Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Cyflwynwyd Strategaeth Rheoli Gwybodaeth newydd y Cyngor i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ar 18 Rhagfyr, 2013. Cydnabu'r Pwyllgor yr angen am Strategaeth o'r fath a gofynnwyd i raglen gwaith i'r dyfodol gael ei llunio ar gyfer ei gweithredu a'i chyflwyno i'r cyfarfod nesaf.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Darparu rhaglen gwaith i'r dyfodol ar gyfer y Strategaeth Rheoli Gwybodaeth i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol.

## 3. Argymhelliad

3.1 Argymhellir bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn nodi'r rhaglen gwaith i'r dyfodol.

3.2 Argymhellir hefyd y dylid cyflwyno diweddariad blynyddol i'r Pwyllgor am y cynnydd sy'n cael ei wneud ar weithredu'r Strategaeth Rheoli Gwybodaeth.

## 4. Manylion am yr Adroddiad

4.1 Gweler Atodiad 1 i weld rhaglen gwaith i'r dyfodol y Strategaeth Rheoli Gwybodaeth.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Bydd y fframwaith a amlinellir yn y Strategaeth yn cefnogi'r Cyngor i gyflawni'r blaenoriaethau corfforaethol, drwy:

- Sicrhau y gellir nodi ein gwybodaeth yn gyflym ac yn rhwydd;
- Sicrhau y caiff ein gwybodaeth ei diogelu, yn ôl risg;
- Sicrhau bod gan ein staff a'n haelodau'r lefelau gofynnol o gymhwysedd i reoli gwybodaeth yn briodol;

- Sicrhau bod ein gwybodaeth yn diwallu gofynion statudol, a
- Sicrhau y caiff ein cofnodion hanfodol eu nodi a'u diogelu'n unol â hynny.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

6.1 Cymeradwywyd cyllid ar gyfer y prosiect EDRMS yn ddiweddar gan y Tîm Gweithredol Corfforaethol am 3 blynedd arall. Nid oes angen unrhyw adnoddau ariannol ychwanegol ar gyfer gweithredu'r Strategaeth Rheoli Gwybodaeth, gan fod angen newid mewn diwylliant ac ymddygiad, a fydd yn cael eu cefnogi drwy bolisïau, prosesau, gweithdrefnau newydd a hyfforddiant.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gwblhawyd ar gyfer y penderfyniad?**

7.1 Mae Swyddog Cydraddoldeb y Cyngor wedi awgrymu y dylid cynnal Asesiadau Effaith ar y camau gweithredu yn hytrach na'r Strategaeth.

**8. Pa ymgynghori a gwblhawyd gydag Archwilio ac eraill?**

8.1 Wrth ddatblygu'r Strategaeth Rheoli Gwybodaeth, rhannwyd y fersiwn ddrafft gyda'r budd-ddeiliaid allweddol a ganlyn i gael eu sylwadau:

- Pennaeth Cynllunio Busnes a Pherfformiad
- Rheolwr Trawsnewid Busnes a TGCh
- Cyfarwyddwr Corfforaethol - Moderneiddio a Lles
- Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cwsmeriaid
- Aelod Arweiniol dros Foderneiddio a Pherfformiad/
- Cyfreithwyr

**9. Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

9.1 Dyma rai o'r risgiau o beidio â rheoli'n hasedau gwybodaeth yn briodol:

- Dirwyon - Deddf Diogelu Data yw £500,000
- Niwed i enw da
- Methu cyflawni arbedion effeithlonrwydd
- Methu cyflawni'r rhaglen foderneiddio

**10. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

10.1 Amherthnasol